

Gwnewch eich rhan dros ystlumod

Os ydych wedi mwynhau edrych am ystlumod heno, pam nad ymunwch â'r Rhaglen Genedlaethol i Fonitro Ystlumod (NBMP)? Mae'r NBMP yn ein galluogi i ddilyn newidiadau ym mhoblogaethau ystlumod mewn amrywiaeth o gynefinoedd, drwy gymorth gwerthfawr rhwydwaith o arolygwyr gwirfoddol. Ers i'r NBMP gychwyn yn 1997, mae mwy na 2,000 o wirfoddolwyr wedi gwneud arolwg mewn dros 3,200 o safleoedd clwydo a chaeau. Mae hyn yn cyfateb i 15,000 o nosweithiau o waith, sy'n nifer arbennig.

Nid oes raid i chi fod yn arbenigwr ar ystlumod i'n cynorthwyo i fonitro poblogaethau ystlumod y DU. Mae yna amrywiaeth mawr o arolygon y gellid cymryd rhan ynddynt, ac maent yn addas ar gyfer pob lefel o brofiad a gwybodaeth, ac mae llawer o hwyl i'w gael ym mhob un ohonynt!

I gael rhagor o wybodaeth am y NBMP, ewch i www.bats.org.uk, e-bostiwch nbmp@bats.org.uk neu ffoiniwch y Llinell Gymorth Ystlumod ar 0845 1300 228.

Mae'r NBMP yn cael ei arian craidd oddi wrth y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC).

Do your bit for bats

If you've enjoyed looking for bats this evening, why not sign up for the National Bat Monitoring Programme (NBMP)? The NBMP enables us to track changes in bat populations across a range of habitats with the invaluable assistance of a network of volunteer surveyors. Since the NBMP began in 1997, more than 2,000 volunteers have done surveys at over 3,200 roost and field sites, adding up to a remarkable 15,000 evenings of work.

You don't need to be a bat boffin to help us monitor the UK's bat populations. We have a wide range of surveys to take part in that are suited to every level of experience and knowledge, and all of them are lots of fun!

For more information on the NBMP visit www.bats.org.uk, email nbmp@bats.org.uk or call the Bat Helpline on 0845 1300 228.

The NBMP is core-funded by the Joint Nature Conservation Committee (JNCC).

Ymunwch â ni

Mae'r Bat Conservation Trust (BCT) am weld dyfodol pan fydd pawb ym mhob man yn gallu mwynhau gweld a chlywed ystlumod fel rhan naturiol o'u hamgylchedd. Ymunwch â BCT heddiw, gan ein cynorthwyo i sicrhau bod ystlumod a'u cynefinoedd yn dal mewn bodolaeth er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gael eu mwynhau.

Er mwyn darganfod mwy am yr ystlumod yn eich ardal chi, ac i gael rhagor o fanylion ar sut i'w gweld, pam nad ymunwch â'ch grŵp ystlumod lleol? Mae bron i 100 o grwpiau ystlumod o amgylch y DU. Ffoiniwch y Llinell Gymorth Ystlumod neu ewch i wefan y BCT i gael manylion cyswllt eich grŵp agosaf.

Join us

The Bat Conservation Trust (BCT) wants a future where everyone, everywhere can enjoy seeing and hearing bats as a natural part of their environment. Join BCT today and help us ensure that bats and their habitats are around for future generations to enjoy.

To find out more about the bats in your area, and for more details on how to see them, why not join your local bat group? There are nearly 100 bat groups around the UK. Call the Bat Helpline or visit the BCT website for contact details of your nearest group.



Mae Prosiect Ystlumod Cymru yn cael ei gefnogi gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Elite Group ccc

The Welsh Bat Project is supported by the Countryside Council for Wales and the Elite Group plc.

The Bat Conservation Trust (BCT)

15 Cloisters House, 8 Battersea Park Road, London SW8 4BG

Ffoiniwch y Llinell Gymorth ar gyfer Ystlumod heddiw ar 0845 1300 228 neu edrychwch ar www.bats.org.uk.

Call the Bat Helpline today on 0845 1300 228 or visit www.bats.org.uk

E-bost/Email enquiries@bats.org.uk

Mae'r Bat Conservation Trust yn elusen gofrestredig (rhif 1012361)
The Bat Conservation Trust is a registered charity (number 1012361)



Bat Conservation Trust



Pa ystlumod yw hwnna? What bat is that?



Mae yna un deg saith o rywogaethau o ystlumod yn y DU, ond mae yna bedwar y byddech yn fwyaf tebygol o'u gweld pan fyddwch ar daith ystlumod.

Dyma ganllaw hwylus i wahaniaethau rhyngddynt, p'un ai a fyddwch yn defnyddio'ch llygaid neu synhwyrdd ystlumod!

There are seventeen species of bat in the UK, but there are four that you're most likely to see when you're out on a bat walk.

Here's a handy guide to telling the difference between them, whether you're using your eyes or a bat detector!

Dilynwch y llinellau coch i weld llwybr hedfan pob ystum...


Follow the red lines to identify each bat's flight path...



Mae'r ystum hirglust yn dod allan wedi iddi nosi. Fel arfer, fe fydd yn hedfan yn agos iawn at goed, sy'n ei gwneud yn eithaf anodd i'w weld. Mae'n hedfan yn araf, ac yn hofran fel iâr fach yr haf fawr.

The brown long-eared bat comes out after dark. It usually flies very close to trees, which makes it quite difficult to spot. Its flight is slow and hovering, a bit like that of a big butterfly.

Un o'n hystlumod mwyaf yw'r ystum mawr; mae ystumod mawr yn ymddangos yn gynnar gyda'r nos, fel y bydd yn dechrau tywyllu. Gellir eu gweld ambell waith yn hedfan mewn llinell syth, yn uchel uwchben. Mae'r ystum mawr yn edrych tua'r un faint â drudwen, ac mae ganddo adenydd cul nodweddiadol.



The noctule is one of our biggest bats; noctules emerge early in the evening, just as it starts to get dark. They can sometimes be seen flying in a straight line, high overhead. The noctule looks about the same size as a starling, and has distinctive narrow wings.

Mae'r ystum lleiaf yn ymddangos tuag adeg machlud haul, a dyma'r ystumod y byddwch yn fwyaf tebygol o'u gweld. Maent yn hedfan yn eratig – gan droi a throsi o amgylch adeiladau, goleuadau stryd, coed a gwrychoedd. Mae yna dair rhywogaeth o ystum lleiaf sy'n edrych yn debyg iawn i'w gilydd: yr ystum lleiaf cyffredin, yr ystum lleiaf uchelsain a'r ystum lleiaf Nathusius, sy'n fwy prin.

Pipistrelles emerge around sunset, and these are the bats that you are most likely to spot. They have an erratic flight – twisting and turning around buildings, streetlights, trees and hedges. There are three species of pipistrelle that look very similar: the common pipistrelle, the soprano pipistrelle and the rarer Nathusius' pipistrelle.



Os gwelwch ystum yn hedfan yn isel iawn uwchben dŵr, yn braidd gyffwrdd â'r wyneb fel hofranlong fechan, mae'n debyg mai ystum y dŵr ydyw. Gwyliwch ystumod y dŵr yn ofalus iawn ac mae'n bosibl y gwelwch nhw'n cyffwrdd wyneb y dŵr er mwyn cipio pryf gyda'u traed mawr blewog!

If you see a bat flying very low over water, skimming the surface like a mini hovercraft, it's probably a Daubenton's bat. Watch Daubenton's bats very carefully and you may see them touch the water's surface to seize an insect with their big hairy feet!



Defnyddio synhwyrdd ystumod i adnabod ystumod

Using a bat detector to identify bats

Mae ystumod yn defnyddio cri amledd uchel, fel arfer y tu hwnt i gwmpas clyw dynol, er mwyn creu darlun sain o'r ardal o'u cwmpas. Mae'r system hon, a elwir yn ecoleoli, yn eu galluogi i hedfan yn ystod y nos gan ddod o hyd i hyd yn oed y pryfed lleiaf. Dim ond drwy ddefnyddio dyfais a elwir yn synhwyrdd ystumod y gall pobl glywed cri ecoleoliad fel arfer. Mae hwn yn gwneud synau ecoleoliad yr ystumod yn glywadwy i fodau dynol. Mae gwahanol rywogaethau'n ecoleoli ar amledd gwahanol, ac fe allant swnio'n hollol wahanol hefyd.

Rhywogaeth Species	Amledd gwrando gorau Best listening fre- quency	Graddfa ailadrodd cri Call repetition rate	Swnio fel Sounds like
Yr ystum lleiaf cyffredin Common pipistrelle	46kHz	Canolig Medium	'smac' 'smack'
Yr ystum lleiaf uchelsain Soprano pipistrelle	55kHz	Canolig Medium	'smac' 'smack'
Yr ystum hirglust Brown long-eared	45kHz-50kHz	Cyflym iawn Very fast	'tship' 'chip'
Ystum y dŵr Daubenton's	45kHz	Cyflym Fast	'tic-cê' 'tik-ke'
Yr ystum mawr Noctule	20kHz-25kHz	Araf iawn Very slow	'tship-tshop' 'chip-chop'

Bats use high frequency calls, normally beyond the range of human hearing, to build up a sound picture of their surroundings. This system, called echolocation, enables them to wing their way through the night and hunt down even the tiniest of insects. Humans can usually hear echolocation calls only by using a device called a bat detector, which makes the bats' echolocation sounds audible to humans. Different species echolocate at different frequencies, and can sound completely different as well.